Beth mae Tenantiaid ei Eisiau!

adnodd 3:
Ffynonellau o arfer da am wybodaeth i denantiaid

i2i - inform to involve
i2i - hysbysu i ymrwymo

Cydnabyddiaethau

Hoffai **i2i** ddiolch i Tamsin Stirling a gynhyrchodd yr adnodd hwn gyda chymorth Monica Keeble, Simon Inkson, Liza Fleming, Elin Jones, Jo Baldwin a Keith Edwards.

Hoffem ddiolch hefyd i'r gwahanol awdurdodau lleol yng Nghymru, yr Alban a Lloegr a fu'n rhoi cymorth a chyngor ynghyd â staff yn IDeA a'r Gwasanaeth Gwybodaeth Tenantiaid a nifer o Gynghorwyr Tenantiaid Annibynnol.

Cefnogir gwaith **i2i** gan raglen Blaenau'r Cymoedd.

Tachwedd 2006

Cyflwyniad

Cynhyrchwyd yr adnodd hwn ar gyfer prosiect cefnogi Blaenau'r Cymoedd **i2i** – **inform to involve** Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dylid ei ystyried hefyd yn rhan o amcan ehangach gan y Cynulliad i roi i bob tenant yr *Hawl i Wybod* sut y bydd ei awdurdod lleol neu landlord cymdeithasol cofrestredig yn cyflawni ac yn cynnal SATC – sef Safon Ansawdd Tai Cymru.

Sefydlwyd **i2i** er mwyn sicrhau bod gwybodaeth glir, gywir a phriodol ar gael i denantiaid awdurdodau lleol Blaenau'r Cymoedd am sut y bydd eu landlord yn cyflawni SATC. Ein nod hefyd yw rhannu'r hyn a ddysgwn gyda chymuned dai ehangach Cymru.

Cynhyrchwyd yr adnodd hwn o ymchwil a oedd yn cynnwys gwefan, llenyddiaeth ac adolygiad astudiaeth achos o'r wybodaeth a ddarperir i denantiaid am y Safon Tai Gweddus yn Lloegr, a Safon Ansawdd Tai yr Alban. Dyma'r drydedd ran mewn cyfres o adnoddau a ddatblygwyd gan **i2i** o'r enw *Beth mae Tenantiaid ei Eisiau!* sydd hefyd yn cynnwys:

- **adnodd 1: templed gwybodaeth SATC**
- **adnodd 2: canllaw gwybodaeth SATC**

Gan fod y broses o ddarparu gwybodaeth yn parhau, rydym yn croesawu adborth er mwyn gwella adnoddau cyfredol ac adnoddau a ddatblygir yn y dyfodol gan brosiect **i2i**. Ein nod yw sicrhau bod *Beth mae Tenantiaid ei Eisiau!* a deunyddiau eraill ar gael fel adnodd ar y we y gellir ei ddiweddaru'n hawdd.

Sut i ddefnyddio'r Adnodd hwn

Mae'r canllaw yn ffynhonnell o wybodaeth i'w defnyddio i helpu awdurdodau lleol a chymdeithasau tenantiaid i ennyn diddordeb tenantiaid ym mhroses SATC ac fe ddylid ei defnyddio ar y cyd â chanllaw a thempled *Beth mae Tenantiaid ei Eisiau!*. Mae gan yr adnodd yr adrannau canlynol:

- *Adran 1:* mae hyn yn cynnwys **enghreifftiau o arfer effeithiol** o sefydliadau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban

- *Adran 2:* sy'n cynnwys dewis o **wefannau defnyddiol**

- *Adran 3:* sy'n cynnwys dewis o **gyhoeddiadau defnyddiol**

Er bod y templed a'r canllaw yn cael eu hanelu at denantiaid, gobeithiwn y byddant yn helpu i ddatblygu meddwl am ofynion gwybodaeth rhanddeiliaid allweddol eraill fel staff ac aelodau etholedig.

Adran 1: Enghreifftiau o Arfer Effeithiol

Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn nodi sawl enghraifft o arfer effeithiol a nodwyd yn ystod y gwaith ymchwil byr a wnaed yn rhan o'r prosiect hwn. Ni fwriedir i'r enghreifftiau fod yn ddiffiniol, ond yn syniad o'r ffordd yr aethpwyd i'r afael â rhai o'r materion yn ymarferol. Fe'u rhannir yn ddau fath:

• yr enghreifftiau hynny a ddilyswyd yn effeithiol mewn un ffordd neu'r llall, e.e. drwy ennill gwobr neu gael eu cynnwys mewn cronfa ddata ar-lein o arfer effeithiol a ddilyswyd

• y rheiny sydd heb gael eu dilysu gan unrhyw gorff allanol, ond y mae'r ymchwilwyr yn ystyried eu bod yn effeithiol ar sail gwybodaeth a ddarparwyd iddynt yn ystod y prosiect hwn ac y byddant o ddiddordeb i'r rheiny sy'n rhoi gwybodaeth i denantiaid am Safon Ansawdd Tai Cymru

Enghreifftiau wedi'u dilysu o arfer effeithiol

Strategaeth gyfathrebu
Enillodd Cyngor Bwrdeistref Slough wobr cyfathrebu rhagorol IPR (ffeil PDF, 7 tudalen, 255 KB) am yr ymgynghoriad gorau yn ystod ei raglen trosglwyddo stoc. Roedd ei ymgynghoriad a'i strategaeth gyfathrebu yn nodi dau grŵp tenantiaid cwbl wahanol:

- tenantiaid gweithredol a oedd yn wybodus am y cynigion ac yn eu gwrthwynebu'n groch

- y corff tenantiaid cyffredinol a oedd wedi drysu am yr hyn a gynigiwyd a pham, ac a deimlai ei fod wedi'i ynysu o'i landlordiaid cyngor a'i gymdogion gweithredol

Roedd y strategaeth gyfathrebu yn astudio ffyrdd o gynnwys y ddau grŵp gan gynnwys blychau sylwadau a hysbysfyrddau yn y blociau tŵr yr oedd y trosglwyddiad yn effeithio arnynt, llinell ffôn frys rhad ac am ddim, ymweliadau drws i ddrws a chymorthfeydd wythnosol.

[Ffynhonnell: IDeA Knowledge]

Cyfathrebu ysgrifenedig 1

Cynhyrchodd Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Tameside ymgyrch a enillodd wobrau ar gyfer trosglwyddo ei stoc gan gynnwys creu papur newydd tabloid o'r enw *'The Big Switch'*, i gyfleu ei neges i'r gymuned. Enillodd yr ymgyrch sawl gwobr IPR gan gynnwys yr Ymgyrch Cymunedol Gorau yng Ngogledd-orllewin Lloegr yng Ngwobrau Cream IPR. Defnyddiwyd *The Big Switch* i frandio pob taflen ac eitem hyrwyddo i sicrhau proffil uchel i'r ymgyrch am drosglwyddo stoc.

Mae cyflwyniad am yr ymgyrch ar gael ar-lein ar:
http://www.idea-knowledge.gov.uk/idk/aio/70655

[Ffynhonnell: IDeA Knowledge]

Cyfathrebu ysgrifenedig 2
Aeth Bwrdeistref Frenhinol Kingston Upon Thames ati i greu cylchgrawn newydd o'r enw *'Housing Choice'* , sydd fel sianel i ymgynghori â phreswylwyr am y cynnig i drosglwyddo stoc i sefydliad dielw.

Mae pob rhifyn yn ymateb i'r prif bryderon a godir gan ddarllenwyr sy'n cael eu dadansoddi'n feysydd fel rhenti, hawliau a moderneiddio cartrefi. Fel hyn, gall ei gynulleidfa weld ffeithiau allweddol ar gipolwg. Lluniwyd llyfryn manylach, a chwestiynau ac atebion am drosglwyddo stoc hefyd. Mae'n cynnwys 60 cwestiwn sy'n ymdrin â materion fel gwasanaethau i bobl hŷn, y broses bleidleisio a materion ariannol a gynlluniwyd i roi atebion i gwestiynau mwyaf cyffredin cynghorwyr, staff, cynrychiolwyr tenantiaid a phrydleswyr ac eraill.

Mae copi o'r cylchgrawn ar gael ar-lein ar
http://www.idea-knowledge.gov.uk/idk/aio/70527
Mae'r llyfryn cwestiynau ac atebion ar gael ar-lein ar
http://www.idea-knowledge.gov.uk/idk/aio/70525

[Ffynhonnell: IDeA Knowledge]

Estyn allan i gymunedau 1
Trefnodd Cyngor Dinas Peterborough gyfarfod ar gyfer ei denantiaid byddar-dall ym mhencadlys yr elusen DeafBlind UK, yn Hampton, Peterborough, i egluro beth fyddai trosglwyddo stoc yn ei olygu. Drwy ddefnyddio dolen glywed y ganolfan a'r wyddor llaw, roedd tenantiaid a'u dehonglwyr yn gallu cyfathrebu â swyddogion y cyngor am y cynlluniau a chael atebion i'w cwestiynau am ddogfen cynnig ffurfiol yr awdurdod.

[Ffynhonnell: IDeA Knowledge]

Estyn allan i gymunedau 2
Pan oedd Bwrdeistref Barnet yn Llundain yn ystyried adfywio Ystâd Grahame Park a fydd yn cael ei reoli gan gymdeithasau tai, ymatebodd i anghenion ei gymdogaethau sy'n naturiol yn llai, drwy gynnal deunaw cyfarfod cymdogaeth ar draws yr ystâd.

Roedd hyn yn gyfle i breswylwyr, yn benodol y rheiny nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, gyfarfod mewn grwpiau bach i drafod y cynigion adfywio. Mynychwyd y cyfarfodydd gan swyddogion o'r cyngor, staff arbenigol o'r cymdeithasau tai a Solon, y cynghorwr tenantiaid, a oedd yn gallu ymateb i'r cynigion adfywio, ateb cwestiynau a delio ag unrhyw bryderon.

Llwyddwyd i ennyn diddordeb tenantiaid a phreswylwyr anodd eu cyrraedd drwy benodi swyddog cymorth cymunedol gan Gyngor Barnet, a fu'n ymweld â thenantiaid hŷn a diamddiffyn ac yn rhoi gwybodaeth mewn naw iaith gymunedol arall yn ogystal â chynhyrchu fideo i bob cartref ar yr ystâd i egluro'r broses bleidleisio.

[Ffynhonnell: IDeA Knowledge]

Enghreifftiau eraill o arfer effeithiol

Galluogi tenantiaid i ddewis yr opsiwn
Nododd un Cynghorwr Tenantiaid Annibynnol a fu'n rhoi gwybodaeth i'r prosiect ei bod yn bwysig rhoi'r cyfle i denantiaid benderfynu beth yw'r opsiwn priodol.

Yn yr Alban, bu Cyngor Stirling yn rhoi gwybod yn llawn i denantiaid am yr holl opsiynau ac fe ddewisodd y tenantiaid yr opsiwn trosglwyddo stoc. O gymharu, yn Nwyrain Swydd Dunbarton, rhoddwyd yr holl opsiynau i denantiaid a'r hyn a oedd orau gan y tenantiaid (a'r Cynghorau) oedd cadw stoc gyda benthyca darbodus.

[Ffynhonnell: arolwg e-bost Cynghorwyr Tenantiaid Annibynnol]

Cynnwys tenantiaid yn gynnar

Roedd Comisiwn Tai Casnewydd yn cynnwys 5 tenant a 5 aelod annibynnol a dreuliodd 10 mis yn casglu, yn cael ac yn ystyried tystiolaeth.

Daeth y Comisiwn i'r casgliad mai trosglwyddo stoc oedd yr unig ddewis dichonadwy, gan sefydlu'r sefydliad newydd mewn ffordd y gallai ddatblygu'n sefydliad a arweinir gan denantiaid yn y dyfodol, os dyna y mae tenantiaid ei eisiau. Nodir bod cyfranogiad tenantiaid yn rhywbeth allweddol i'r sefydliad newydd.

O ran rôl tenantiaid yn y Comisiwn, mae'r rhagair i'r adroddiad yn nodi'r canlynol:

'bu gwaith yr aelodau tenant o'r Comisiwn yn hollbwysig er mwyn dod i gasgliad cytbwys ac mae'n rhaid nodi y bu eu cyfraniad hwy cyn bwysiced â chyfraniad unrhyw aelod arall.

[Ffynhonnell: Cyngor Dinas Casnewydd]

Gwneud grymuso yn egwyddor
Aeth Cyngor Dosbarth Mansfield ati i ddatblygu Strategaeth Grymuso, Cyfathrebu ac Ymgynghori Tenantiaid mewn perthynas ag opsiynau stoc a oedd yn seiliedig ar ymrwymiad yr awdurdod:

'gan gynnwys y gymuned ym mhob agwedd ar ein gwaith. Credwn yn gryf y dylai tenantiaid a phreswylwyr gael y cyfle i gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu cartrefi a'u cymunedau gan sicrhau bod penderfyniadau gwell yn cael eu gwneud sy'n adlewyrchu anghenion lleol yn briodol ac sydd, yn eu tro, yn arwain at gymunedau cynaliadwy.'

Roedd y strategaeth yn nodi rolau a chyfrifoldebau clir ar gyfer cynrychiolwyr tenantiaid, y Cynghorwr Tenantiaid Annibynnol, Swyddog Cyswllt Tai arbenigol, Cynghorwyr, y Tasglu Tai Cymunedol a swyddogion y cyngor.

[Ffynhonnell: Cyngor Dosbarth Mansfield]

Estyn allan i gymunedau 3
Nododd un Cynghorwr Tenantiaid Annibynnol a fu'n rhoi gwybodaeth i'r prosiect ei bod wedi cymryd dros flwyddyn iddynt 'gyrraedd' y cymunedau Somali a Yemeni yn Lerpwl. Roedd gan y Cynghorwr strategaeth benodol ac fe ymrwymodd llawer o amser staff iddi.

'Weithiau mae'n rhaid ichi ddal ati a pheidio â digalonni'.

Nododd y Cynghorwr Tenantiaid Annibynnol anghenion tebyg mewn perthynas â phobl ieuengach – mae eu hymgynghorydd TG wrthi'n ystyried defnyddio negeseuon testun ar gyfer pobl ifanc a gwneud eu gwefan yn fwy rhyngweithiol.
[Ffynhonnell: arolwg e-bost Cynghorwyr Tenantiaid Annibynnol]

Cyfleu'r neges i gymunedau

Mae Dinas a Sir Abertawe wrthi'n cynnal sioe deithiol gyda cherbyd gwybodaeth a fydd yn ymweld â 120 o leoedd, gan gynnwys carnifalau a phrosiectau cymunedol.

Mae gan y cerbyd samplau i ddangos safon a dewisiadau unedau cegin, drysau a ffenestri, opsiynau drws ac wynebau gwaith a dyluniadau ystafell ymolchi. Mae staff y Cyngor a'r Cynghorwr Tenantiaid Annibynnol yn rhedeg y cerbyd.

Y nod yw galluogi cynifer o bobl â phosibl i weld beth y mae Safon Ansawdd Tai Cymru yn ei golygu'n ymarferol ac i holi staff.

Rhestrwyd yr holl leoliadau, dyddiadau ac amseroedd mewn cylchlythyr a luniwyd ac a gylchredwyd yn eang.

[Ffynhonnell: Dinas a Sir Abertawe]

Lleoliad canol tref

Mae Cyngor Stirling wedi agor canolfan yng nghanol y dref i gynghori tenantiaid y cyngor am drosglwyddiad tai arfaethedig. Bydd y ganolfan yng Nghanolfan Thistle yn cynnig gwybodaeth i denantiaid y cyngor ac yn gofyn iddynt bleidleisio o blaid neu yn erbyn Cyngor Stirling yn trosglwyddo ei stoc dai i sefydliad dielw yn ddiweddarach eleni.

Mae gan y ganolfan newydd arddangosiadau sy'n dangos i denantiaid sut olwg fydd ar y ceginau a'r ystafelloedd ymolchi newydd. Bydd cynghorwyr ar gael hefyd i ateb cwestiynau am y cynlluniau trosglwyddo.

[Ffynhonnell: Cyngor Stirling]

Darparu gwybodaeth gynhwysfawr ar y we
Mae gan Gynghorau Bwrdeistref Sirol Torfaen a Rhondda Cynon Taf ystod eang o wybodaeth ar y we am SATC a sut y mae'r awdurdod yn cynnig cyrraedd y safon.

Mae gwefan Torfaen www.torfaen.gov.uk/en/living/index.php/mid=2045~sect= yn cynnwys:
- Gwybodaeth am Safon Ansawdd Tai Cymru
- yr adroddiad arfarnu opsiynau
- crynodeb o arolwg cyflwr stoc
- arf deall y jargon
- cwestiynau cyffredin ac atebion am ystod eang o faterion
- cyflwyniad perthnasol
- copïau o gylchlythyr tenantiaid yr awdurdod
- materion ymgynghori â phrydleswyr
- polisïau drafft ar gyfer sylw

Mae safle arunig Rhondda Cynon Taf http://www.rctbetterhomes.co.uk yn cynnwys adrannau am y canlynol:

- beth yw'r adolygiad buddsoddiad tai?
- camau nesaf
- Tai sy'n Eiddo i'r Gymuned
- cwestiynau cyffredin ac atebion am ystod eang o faterion
- y Cynghorwr Tenantiaid Annibynnol gyda chopïau o'u cylchlythyrau
- y Cynghorwr Staff Annibynnol gyda chopïau o'u cylchlythyrau
- arolwg ar-lein er mwyn i denantiaid nodi eu blaenoriaethau ar gyfer gwelliannau i'w cartref
- rhestr o ddigwyddiadau sydd i ddod

[Ffynhonnell: gwefannau Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Rhondda Cynon Taf]

Profi dulliau cyfathrebu
Comisiynodd Dinas a Sir Abertawe gwmni annibynnol i gynnal arolwg ffôn o hapsampl o 500 o denantiaid ym mis Gorffennaf 2005 a mis Chwefror 2006. Roedd yr arolwg yn gofyn i denantiaid:

- sut oeddent yn teimlo am yr amryw ddulliau cyfathrebu a ddefnyddir gan y cyngor
- a oeddent yn darllen ac yn deall y cylchlythyrau
- am eu hymwybyddiaeth am y trosglwyddiad stoc arfaethedig

Awgrymodd y canfyddiadau fod:
- y dull cyfathrebu yn gweithio
- y cylchlythyr yn cael ei ddarllen a'i ddeall ac mai dyna yw'r hoff ddull o gael gwybodaeth
- ymwybyddiaeth am y trosglwyddo arfaethedig wedi cynyddu rhwng y ddau arolwg

[Ffynhonnell: Dinas a Sir Abertawe]

Defnyddio amrywiaeth o ddulliau
Nododd un Cynghorwr Tenantiaid Annibynnol a fu'n rhoi gwybodaeth i'r prosiect eu bod wedi defnyddio'r dulliau canlynol dros y blynyddoedd:

- rhif rhadffôn
- cylchlythyrau
- llythyrau personol
- gweithgareddau cymdeithasol
- tudalennau gwe
- sioeau teithiol
- cynadleddau
- stondinau mewn archfarchnadoedd a chanolfannau siopa ac mewn swyddfeydd lleol
- gwahodd ein hunain i wasanaethau eglwys, grwpiau chwarae a gweithgareddau lleol eraill

- nodi rhifau symudol ac anfon negeseuon testun at denantiaid i roi gwybod iddynt am ddigwyddiadau neu gyfarfodydd cyhoeddus;
- mynd o amgylch y cynlluniau tai gwarchod a rhoi gwybodaeth lawn i'r wardeniaid
- defnyddio'r radio a'r papurau lleol
- defnyddio grwpiau tenantiaid a phreswylwyr lleol a chynghorau cymunedol i gynnal cyfarfodydd; ac
- mewn ardaloedd gwledig anghysbell, 'rydym wedi cyflogi a hyfforddi ein cnocwyr drysau ein hunain'

[Ffynhonnell: arolwg e-bost Cynghorwyr Tenantiaid Annibynnol]

Mae'r enghraifft ganlynol yn syniad o'r ffordd yr aeth awdurdod ati i gyflwyno gwybodaeth sy'n cymharu cadw a throsglwyddo o ran y gwaith i'w wneud yng nghartrefi tenantiaid. Nid oedd yr ymchwil yn nodi enghraifft effeithiol o gymharu gwybodaeth yn glir am opsiynau cadw a throsglwyddo ar draws pob agwedd ar y materion sy'n bwysig i denantiaid a ddarparwyd cyn y ddogfen gynnig.

Cymharu cadw a throsglwyddo stoc
Darparwyd y tabl cymharu canlynol am waith a gwelliannau mawr mewn rhifyn arbennig o gylchlythyr trosglwyddo stoc Canol Dyfnaint a oedd yn crynhoi'r cynnig i denantiaid.

Gwaith a gwelliannau mawr

	Byddai Mid Devon Homes yn	Gallai'r Cyngor
Arbed biliau tanwydd ac ynni	Gwella'r gyfradd ynni effeithlon gyfartalog ar gyfer pob cartref cyngor i **65 SAP** ymhen **5 mlynedd**	Gyflawni cyfradd ynni effeithlon gyfartalog o **65 SAP** ar gyfer pob cartref ymhen **10 mlynedd**
Insiwleiddio	Cyflawni **mwy na'r lleiafswm** o safonau insiwleiddio wal geudod i bob cartref ymhen **5 mlynedd**	Cyrraedd y **safonau insiwleiddio lleiaf** i fodloni'r Safon Tai Gweddus ymhen **5 mlynedd**
	Byddai Mid Devon Homes yn	Gallai'r Cyngor
Systemau gwresogi	Darparu **systemau gwresogi modern newydd** ac yn **diweddaru systemau gwresogi rhannol presennol** i bob cartref ymhen **5 mlynedd**	Ddarparu **system wresogi fodern newydd lle nad oes unrhyw system eisoes** ymhen **5 mlynedd**
Larymau mwg a synwyryddion carbon monocsid	Gosod ym mhob cartref **larymau mwg a synwyryddion carbon monocsid a bwerir**	Gosod ym mhob cartref **larymau mwg a synwyryddion carbon monocsid a bwerir gan y prif**

	gan y prif gyflenwad ymhen **5 mlynedd**	**gyflenwad** ymhen **14 mlynedd**
Systemau mynediad drws	Gosod **systemau mynediad drws** i bob mynedfa gyffredin ymhen **2 flynedd**	Gosod **systemau mynediad drws** i bob mynedfa gyffredin ymhen **7 mlynedd**
Systemau trydanol	Cael **rhaglen gynlluniedig** i ddiweddaru systemau trydanol fel bod **pob cartref yn cyrraedd safonau modern ymhen 5 mlynedd**	Darparu **rhaglen gyfyngedig** o **waith uwchraddio trydanol mewn adeiladau gwag**

Uwchraddio erialau teledu cyffredin	**Uwchraddio pob erial deledu gyffredin i rai digidol** ymhen **blwyddyn**	**Uwchraddio pob erial deledu gyffredin i rai digidol** ymhen **2 flynedd**
Ceginau newydd	Adnewyddu **1,110 o geginau** ymhen **5 mlynedd** gan ddefnyddio tapiau arbed dŵr	Adnewyddu **800 o geginau** ymhen **5 mlynedd** gan ddefnyddio tapiau arbed dŵr
Ystafelloedd ymolchi newydd	Adnewyddu **1,110 o ystafelloedd ymolchi** ymhen **5 mlynedd** gan ddefnyddio tapiau arbed dŵr	Adnewyddu **900 o ystafelloedd ymolchi** ymhen **5 mlynedd** gan ddefnyddio tapiau arbed dŵr
Ffenestri newydd	Darparu **1,400 o ffenestri** ymhen **5 mlynedd**	Darparu **900 o ffenestri** ymhen **5 mlynedd**
Safon Tai Gweddus erbyn 2010	Yn ogystal â **bodloni a chynnal** y Safon Tai Gweddus, hefyd cyflawni **safon uwch** o gartrefi modern, cynnes a diogel ymhen **5 mlynedd** o drosglwyddo	**Bodloni'r** Safon Tai Gweddus erbyn 2010 ond **ei methu ar ôl y dyddiad hwn**

[Ffynhonnell: Mid Devon Homes a Chyngor Dosbarth Canol Dyfnaint]

Adran 2: Gwefannau Defnyddiol

Mae'r tabl isod yn darparu cysylltiadau â gwefannau perthnasol ar lefel genedlaethol a chymdeithasau tai unigol lle cydnabuwyd bod y rhain yn darparu arfer da neu'n benodol berthnasol i'r prosiect hwn.

Gwefan	***Crynodeb o gynnwys***
Gwefannau cyfeirio Lloegr/yr Alban	
Y Sefydliad Tai Siartredig Gwybodaeth am y Model *Gateway* Cymunedol http://www.cih.org/gateway/	Ystod o gyhoeddiadau sydd ar gael i'w llwytho i lawr sy'n olrhain cynnydd gweithredu Model *Gateway* Cymunedol
Tasglu Tai Cymunedol http://www.communities.gov.uk/index.asp?id=1152239	Mae'n cynnwys cylchlythyrau, nodiadau briffio arfer da ac adran am newid rheolaeth mewn tai cymdeithasol
HouseMark www.housemark.co.uk	Gwasanaeth tanysgrifio – mae'n cynnwys ystod eang o enghreifftiau o arfer effeithiol a fforwm trafod
IDeA Knowledge http://www.ideaknowledge.gov.uk/idk/core/page.do?wax=body_child_0_1&pageId=81583	Adran IDeA Knowledge am Gyfathrebu Newid: Mentrau Cyllid Preifat, Sefydliadau Rheoli Hyd Braich a throsglwyddiadau stoc dai. Mae'n cynnwys enghreifftiau arfer da am ymgyrchoedd cyfathrebu, cyfathrebu wyneb yn wyneb, y rhyngrwyd a chyfathrebu ysgrifenedig
Y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol www.housing.org.uk	Mae cyhoeddiadau'n cynnwys: - cwestiynau ac atebion am drosglwyddo stoc
	http://www.housing.org.uk/library/viewfile.asp?fid=5048 - gwybodaeth am drosglwyddo stoc - gwybodaeth o Astudiaeth Beilot Tai Gweddus
Gwasanaeth Gwybodaeth Tenantiaid http://www.tis.org.uk/index.html	Wedi ymwneud â mwy na 40 o bleidleisiau trosglwyddo o bob maint yn yr Alban. Mae cyhoeddiadau'n cynnwys nodyn gwybodaeth i denantiaid

Gwefannau landlordiaid unigol yn Lloegr/yr Alban	
Ashfield Homes (ALMO) http://www.ashfieldhomes.co.uk/index.cfm/page/services.content.cfm/cid/206/navid/164/parentid/20	Ystod eang o wybodaeth i denantiaid am weithredu gwasanaethau sy'n rhagorol yn ôl Tai Gweddus gyda rhagolygon ardderchog am welliant mewn ail archwiliad diweddar
Community Gateway Association http://www.communitygateway.co.uk/	Y gymdeithas trosglwyddo stoc *gateway* gymunedol gyntaf yn Preston
Sheffield Homes (ALMO) http://www.sheffieldhomes.org.uk/decent-homes	Gwybodaeth i denantiaid am raglen Tai Gweddus gan gynnwys safon leol
West Kent Housing Association http://www.westkent.org/home.asp	Cymdeithas trosglwyddo stoc a grëwyd ym 1989 - yr unig gymdeithas i gael gradd ardderchog ar ôl archwiliad

Gwefannau cyfeirio Cymru	
CIH Cymru http://www.cih.org/cymru/	Mae gwybodaeth bolisi ar-lein ar http://www.cih.org/cymru/policy/briefs.htm
Cymorth Cymru http://www.cymorthcymru.org.uk/	
Shelter Cymru http://www.sheltercymru.org.uk/	
Tai Pawb http://www.taipawb.org/	
TPAS Cymru http://www.tpascymru.org.uk/	
Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru http://www.welshhousing.org.uk	SATC http://www.welshhousing.org.uk/policy/3151.html
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru http://www.wlga.gov.uk/	SATC http://www.wlga.gov.uk/content.php?nID=106;lID=1
Ffederasiwn Tenantiaid Cymru http://www.welshtenantsfed.org.uk/	

Gwefannau landlordiaid unigol Cymru	
Cyngor Dinas Casnewydd www.newport.gov.uk/_dc/index.cfm?fuseaction=housing.homepage	Gwybodaeth gan Gomisiwn Tai Casnewydd, gan gynnwys adroddiad, argymhellion a chrynodeb. Mae'r Awdurdod wedi penderfynu rhoi pleidlais i denantiaid am drosglwyddo
Dinas a Sir Abertawe www.swansea.gov.uk/index.cfm?articleid=6447	Mae adran o'r wefan am gyrraedd SATC Mae'r Awdurdod wedi penderfynu rhoi pleidlais i denantiaid am drosglwyddo

Valleys to Coast Housing http://www.v2c.org.uk	Yr unig gymdeithas dai trosglwyddo stoc yng Nghymru

Gwefannau Blaenau'r Cymoedd	
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent http://www.blaenaugwent.gov.uk/housing/wqhs.htm	Adran o dudalennau tai am SATC
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili www.caerphilly.gov.uk/yourservices/housing/tenantadvisorypanel/index.htm	Gwybodaeth am y Panel Cynghori Tenantiaid a sefydlwyd i ystyried sut y gall yr awdurdod gael digon o gyllid ychwanegol er mwyn gwella neu atgyweirio holl dai'r Cyngor i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2012
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful http://www.merthyr.gov.uk/Home/Local+Services/Housing+Services/	Tudalennau tai ar wefan yr awdurdod lleol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf www.rctbetterhomes.co.uk	Gwefan un pwrpas am SATC Tai Gwell, Dyfodol Disglair, Eich Dewis Mae'r Awdurdod wedi penderfynu rhoi pleidlais i denantiaid am drosglwyddo
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen www.torfaen.gov.uk/en/living/index.php/mid=2045~sect=	Cyfres o dudalennau ar y wefan am Ddewisiadau Tai

Adran 3: Cyhoeddiadau Defnyddiol

Mae'r tabl isod yn nodi cyhoeddiadau perthnasol sydd naill ai ar gyfer tenantiaid neu'n canolbwyntio ar rôl tenantiaid yn y broses arfarnu opsiynau a chyflawni'r safon ansawdd berthnasol.

Cyhoeddwyd gan	**Cyhoeddiadau ac ymhle i'w canfod**
Y Tasglu Tai Cymunedol	Nodiadau gwybodaeth am arfer da: *- Appointing an Independent Tenant Advisory* *- Transfer: a short guide to the process, roles and technical terms* *- Choosing a new Landlord* Ar gael ar-lein ar http://www.communities.gov.uk/index.asp?id=1152245
Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (ODPM yn flaenorol)	*Communication and Consultation Strategies in Options* *Appraisal* *Compendium of Tenants Guides* *Decent Homes and Councillors: A Guide for Officers* *Decent Homes Tenants Guide* *Housing Stock Transfer Tenants Guide* *Options Appraisals Tenants Guide* Ar-lein ar http://www.communities.gov.uk/index.asp?id=1152471 neu http://www.communities.gov.uk/index.asp?id=1152416

Gweithrediaeth yr Alban	*Code of Practice for Tenant Participation in Stock Transfers* Gweler Atodiad 5 am gyswllt
TPAS Lloegr	*Council Housing Transfers (Briefing)* *Secure and Assured Tenancies* *Stock Options Appraisal (Briefing)* *Tenant Control and ITA – case studies* *TP Compacts and achieving Decent Homes* *Tenant Participation in Housing Associations* Ar gael ar-lein ar http://www.tpas.org.uk/sub_page.asp?id=1&cat=49 – chwiliwch yn ôl teitl y ddogfen

TPAS Cymru	Atebion 6 Safon Ansawdd Tai Cymru Atebion 7 Beth yw Trosglwyddo Stoc? Taflenni syml a phlaen opsiynau/trosglwyddo stoc Opsiynau stoc/trosglwyddo stoc – crynodeb Arfarnu opsiynau stoc Ar gael ar-lein ar http://www.tpascymru.org.uk/publications.htm
Llywodraeth Cynulliad Cymru	Siarter Trosglwyddo Stoc Tenantiaid a Phrydleswyr Cyngor Ar gael ar-lein ar http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/housing/social/stocktransfer/?lang=en